

2011 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton,
Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40
mya) 2011**

Gwnaed 28 Tachwedd 2011

Yn dod i rym 7 Rhagfyr 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A470 (Caerdydd i Langurig) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”) drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84 (1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn—

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Rhagfyr 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyffordd 32, Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2011.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig yr 28 Tachwedd 2011

G Morgan
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; Amnewidiwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168 ac Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Darnau o Gyfnewidfa Coryton a'r lôn ar wahân o'r M4 tua'r dwyrain i'r A470 tua'r gogledd.

- (i) Y darn hwnnw o Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt ar drwyn slipffordd ymuno'r A470 hyd at bwynt 120 metr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.
- (ii) Y darn hwnnw o'r lôn ar wahân sy'n ymestyn o bwynt ar ddiwedd slipffordd ymadael Traffordd yr M4 tua'r dwyrain hyd at y pwynt lle mae'n ymuno â slipffordd ymuno'r A470 tua'r gogledd.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYFFORDD 32, CYFNEWIDFA CORYTON, CAERDYDD) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Rhagfyr 2011.

Effaith y Gorchymyn fydd gosod terfyn cyflymder o 40 mya yn y darnau hynny o Gefnffordd yr A470 (Caerdydd i Langurig) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 5 Rhagfyr 2011 ymlaen, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â phlan perthnasol, yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfeydd Cyngor Caerdydd, Glanfa Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW, neu gellir eu cael yn ddi-dâl o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Dewiser: Deddfwriaeth / Is-ddeddfwriaeth / Offerynnau Statudol Lleol / Gorchymynion Traffig Parhaol/2011).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Darnau o Gyfnewidfa Coryton a'r lôn ar wahân o'r M4 tua'r dwyrain i'r A470 tua'r gogledd.

(i) Y darn hwnnw o Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt ar drwyn slipffordd ymuno'r A470 hyd at bwynt 120 metr i'r gogledd o'r pwynt hwnnw.

(ii) Y darn hwnnw o'r lôn ar wahân sy'n ymestyn o bwynt ar ddiwedd slipffordd ymadael Traffordd yr M4 tua'r dwyrain hyd at y pwynt lle mae'n ymuno â slipffordd ymuno'r A470 tua'r gogledd.